Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Dechrau'n Deg

## Mawrth 2014

## Cyflwyniad

**Dechrau'n Deg yw rhaglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant o dan bedair oed yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru**.

Mae'r Nodyn Ymchwil hwn yn trafod datblygiad Dechrau'n Deg ers 2007, gan gynnwys cyllido'r rhaglen a'i gwerthuso hyd yma.

## Dechrau'n Deg

Cyflwynwyd Dechrau'n Deg **yn 2007** â chyllid wedi ei glustnodi tan 2010-11. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i **ehangu'r cynllun** o 2012 ymlaen, gyda'r nod o ddyblu nifer y plant sy'n elwa o Dechrau'n Deg o **18,000 i 36,000 erbyn 2016.**

Yn 2012/13, **cafodd 23,579 o blant fudd o wasanaethau Dechrau'n Deg**. Mae'r ffigur hwnnw'n cyfeirio at gyfanswm nifer y plant sydd wedi cael cyswllt ag ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg yn ystod y flwyddyn.

Yn Llywodraeth Cymru, Vaughan Gething AC, y **Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi**, sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am weithredu Dechrau'n Deg a'i ddarparu'n effeithiol. Jeff Cuthbert AC, **y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**, sy'n gyfrifol am y polisi a'r gyllideb ar gyfer y rhaglen yn gyffredinol.

## Elfennau craidd Dechrau'n Deg

Mae cynllun Dechrau'n Deg yn cynnwys **pedair elfen graidd:**

- **Gofal plant rhan-amser 'o ansawdd' am ddim**: i bob plentyn rhwng dwy a thair blwydd oed sy'n gymwys am 2.5 awr y dydd, pum diwrnod yr wythnos am 39 wythnos. Dylai hyn hefyd gynnwys o leiaf 15 o sesiynau gofal plant i deuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol;
- **Gwasanaeth ymweliadau iechyd gwell** gydag un ymwelydd iechyd i bob 110 o blant yn ardaloedd Dechrau'n Deg (sy'n nifer llawer llai y pen o'i gymharu â'r gwasanaeth arferol);
- **Rhaglenni cymorth rhianta:** darparu rhaglenni rhianta, ar sail yr angen yn lleol. Credir bod y rhain wedi ysgogi deilliannau cadarnhaol i blant;
- **Datblygiad iaith cynnar a sgiliau chwarae:** dylai fod grŵp iaith a chwarae ar gael i bob teulu cymwys fynd iddo. Lle bo angen, gall cymorth mwy arbenigol gael ei gynnig.

## Ble mae Dechrau'n Deg ar waith?

Yn wreiddiol, cafodd Dechrau'n Deg ei weinyddu fel grant i awdurdodau lleol ac fe'i dargedwyd at **dalgylchoedd ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig.** Arweiniodd y gwaith o ehangu'r cynllun y tu hwnt i 2011 at **newid y meini prawf** lle dyrannwyd cyllid yn ôl **amcangyfrifiad o'r nifer o blant rhwng 0 a 3 oed sy'n byw mewn cartrefi sy'n cael incwn o fudd-daliadau mewn ardaloedd awdurdod lleol** mewn ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOAs).

Cafwyd elfen o waith **allgymorth** ei chynnwys yn y cynllun a gafodd ei ehangu, gan ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi plant sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg a fyddai hefyd yn elwa ar wasanaethau Dechrau'n Deg. Ym mis Ionawr 2014, nododd Llywodraeth Cymru, y byddai'r elfen allgymorth o Dechrau'n Deg, yn y dyfodol, yn caniatáu i awdurdodau lleol ddewis o blith **cyfres o opsiynau** ac y byddai wedyn yn amlinellu'r opsiynau hynny wrth

gyflwyno eu cynlluniau Dechrau'n Deg i roi'r rhaglen ar waith.

## Ariannu Dechrau'n Deg

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario dros **£180 miliwn mewn refeniw ar Dechrau'n Deg yn ystod y chwe blynedd ariannol diwethaf** (2007-08 i 2012-13).[1] Cafwyd dyraniadau cyfalaf o fwy na **£7 miliwn** yn ystod y cyfnod hwn.

Mae **gwariant o dros £230 miliwn ar Dechrau'n Deg wedi ei ragweld dros y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf** (rhwng 2013-14 a 2015-16).

Mae'r papur a gyflwynodd y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg cyn cyfarfod o'r pwyllgor hwnnw ar 12 Chwefror 2014 yn amlinellu'r dyraniadau arfaethedig canlynol:

- £61.550 miliwn refeniw a £13 miliwn cyfalaf yn 2013-14;
- £72.1 miliwn refeniw ac £8 miliwn cyfalaf yn 2014-15;
- £77.1 miliwn refeniw a £2 filiwn cyfalaf yn 2015-16.

Mae gwerthusiad cenedlaethol Llywodraeth Cymru o Dechrau'n Deg, sef ***National Evaluation of Flying Start: area case study synthesis report (Saesneg yn unig)***, a gyhoeddwyd yn 2013, yn rhoi'r wybodaeth ganlynol am Dechrau'n Deg hyd at 2012/13:

- **Roedd y gwariant y plentyn, y flwyddyn, ar gyfartaledd yn £1,677.60,**
- **Cost gyfartalog fesul lleoliad gofal plant(roedd 270 o'r rhain) o £55,470;**
- **Cost gyfartalog y plentyn y sesiwn gofal plant oedd £28.30**.

[1] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys costau canolog neu gyfalaf ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2007-08 a 2010-11.

## Ystadegau

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phenawdau ystadegau blynyddol cyntaf ynghylch Dechrau'n Deg ym mis Mehefin 2013[2]. Mae'r ystadegau'n[3] cynnwys y ffeithiau canlynol:

- Ar unrhyw adeg yn ystod 2012-13, roedd **23,579 o blant** yn cael gwasanaethau Dechrau'n Deg yng Nghymru;
- Yn ystod 2012-13, roedd y plant Dechrau'n Deg ar **restrau Ymwelwyr Iechyd** o bob oed hyd at bedair oed **yn cael eu gweld 6.6 o weithiau ar gyfartaledd** gan Ymwelwyr Iechyd a ddwywaith arall gan aelodau o'r tîm iechyd ehangach;
- **Yn ystod 2012-13, derbyniwyd 90%** o'r cynigion **i gael gwasanaeth gofal plant** mewn lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg;
- **Gwnaeth 82%** o'r plant dwy flwydd oed yn y rhaglen Dechrau'n Deg gyrraedd y norm o ran eu datblygiad, rhagori ar hynny neu gyrraedd o fewn un band oedran i hynny**. Rhagorodd 55% o'r plant dwy flwydd oed ar eu cerrig milltir**;
- Roedd **92%** o'r plant tair blwydd oed ac sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar y gofrestr mewn ysgol a gynhelir (2012);
- Roedd **76%** o'r plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg wedi eu **himiwneiddio'n llawn pan oeddent yn bedair oed** (2011-12).

[2] Fodd bynnag, ar ôl adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cyflwyno data sy'n ymwneud â cherrig milltir datblygu Dechrau'n Deg, cyhoeddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ym mis Medi 2013.
[3] Llywodraeth Cymru, ***Ystadegau cryno Dechrau'n Deg, 2012-13: diwygiedig***, Medi 2013

## Gwerthuso Dechrau'n Deg

Ar ôl cyflwyno Dechrau'n Deg, comisiynodd Llywodraeth Cymru raglen **gwerthuso parhaus**. Cyhoeddwyd adolygiadau o wahanol elfennau o'r rhaglen (gan ymgynghorwyr allanol ar ran Llywodraeth Cymru) o bryd i'w gilydd ers 2010. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthusiad interim, **adolygiad o gymorth rhianta Dechrau'n Deg**[4]; Dechrau'n Deg: Canfyddiadau arolwg sylfaenol o deuluoedd; Area case study synthesis report (Saesneg yn unig), a Dechrau'n Deg: Adroddiad synthesis.

Cafwyd dau arolwg i gasglu tystiolaeth am y canlyniadau i rieni a phlant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac eu **cymharu â'r canlyniadau i rieni a phlant** mewn ardaloedd a oedd yn fwyaf tebyg o ran amddifadedd ond **nad oeddent yn ardaloedd Dechrau'n Deg**[5]. Yn ogystal, casglwyd data gan yr arolygon am fynediad at wasanaethau, nifer y bobl a fanteisiodd ar y gwasanaethau a'r canfyddiadau o'r gwasanaethau. Casglwyd data sylfaenol mewn **cyfweliadau wyneb yn wyneb** rhwng mis Mawrth a mis Awst 2010, a chasglwyd data eto rhwng mis Mehefin 2012 a mis Ionawr 2013.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, cyhoeddwyd **elfen olaf** gwaith gwerthuso Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013: National Evaluation of Flying Start: impact report (Saesneg yn unig). Mae'r adroddiad hwn yn **adolygu effeithiolrwydd y rhaglen** yn gyffredinol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar dri phrif faes ac mae crynodeb o'r canfyddiadau isod:

[4] Dim ar gael ar y rhyngrwyd

[5] Er mwyn mesur dylanwad y rhaglen, parwyd y rhai a ymatebodd i'r arolwg mewn ardaloedd Dechrau'n Deg â'r rhai a ymatebodd sy'n perthyn i grwpiau cyfatebol ar sail ystod o ffactorau, fel oedran, maint y teulu, addysg, math o dŷ, statws unig rhiant a nodweddion economaidd-gymdeithasol eraill. [...] Cyflwynwyd rhaglen Dechrau'n Deg i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n golygu bod yr ardaloedd cymharu yn gymharol llai difreintiedig.

## Mynediad at wasanaethau, manteisio ar y gwasanaethau a chanfyddiad o'r gwasanaethau

- Cafodd rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg gyswllt ag ymwelwyr iechyd 5.7 o weithiau'n rhagor o gymharu â'r sampl, gan gynnwys cyfartaledd o 4.6 yn rhagor o ymweliadau yn y cartref.
- Roedd 17.9% yn rhagor o deuluoedd yn y grŵp Dechrau'n Deg yn ymwybodol o raglenni rhianta o gymharu â'r rheini yn y sampl gymharu. Roedd 12.5% yn rhagor o deuluoedd yn y grŵp Dechrau'n Deg yn nodi eu bod wedi bod i o leiaf un sesiwn;
- Er bod Dechrau'n Deg wedi codi ymwybyddiaeth, nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng ardaleodd Dechrau'n Deg ac ardaloedd cymharu yn y nifer a fanteisiodd ar wasanaethau teulu y tu allan iDechrau'n Deg.
- Lle nad yw gwasanaethau Dechrau'n Deg yn ddigonol i ddiwallu anghenion y teulu, yna dylai nodi angen yn gynnar arwain at gyfeirio i weithwyr proffesiynol priodol eraill. Nid yw Plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn **ddim mwy tebygol o fod wedi cael eu cyfeirio at** weithwyr proffesiynol, neu wedi cael cymorth ganddynt, na'r rhai mewn ardaloedd cymharu.
- Mae rhieni o ardaloedd Dechrau'n Deg **dros 13% yn fwy tebygol o** nodi bod ansawdd y gofal plant sydd ar gael yn lleol yn **dda iawn neu'n weddol dda** na'r rhai mewn ardaloedd cymharu. Mae canran debyg yn fwy tebygol o nodi bod gofal plant yn **dda neu'n weddol dda i helpu plant i ddysgu a datblygu;**
- Roedd dros 7% yn rhagor o rieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn ystyried bod eu hardal leol yn lle gwell i fagu plant. **Roedd 17.4% o'r rhieni** o'r grŵp Dechrau'n Deg o'r farn bod y gwasanaethau hyn **wedi gwella** dros y ddwy flynedd diwethaf.

## Canlyniadau i rieni

- Nid oedd gwahaniaeth ystadegol rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg a'r ardaloedd cymharu o ran cyfraddau imiwneiddio, er bod yr adroddiad yn nodi bod y cyfraddau'n uchel o hyd yn y ddwy ardal, sef dros 87% yn y grŵp Dechrau'n Deg;
- Mae'r adroddiad yn nodi: 'Despite more health visitor contacts and a higher take-up of parenting programmes, Learning and Play (LAP) and other early years services in Flying Start areas, the analysis shows **no difference between parents in Flying Start areas and parents in comparison areas on parenting self-confidence, mental health or home environment measures'**[6].

## Canlyniadau i blant

- 'There was **no statistically significant difference between Flying Start and non-Flying Start areas** in terms of child cognitive and language skills, their social and emotional development and their independence/self-regulation.'[7]
- Mae'r adroddiad yn nodi: '**it is possible that Flying Start *has* had a positive impact on parent and child outcomes**. Assuming that families living in Flying Start areas started from a lower 'base' than those in the comparison group before the programme was introduced, the lack of difference between the two groups in this report suggests that Flying Start may have brought about improvements among the families ... (in the most disadvantaged areas of Wales), so their outcomes are now on a par with those in less disadvantaged comparison areas.[8]

[6] Mae adroddiad y gwerthusiad cenedlaethol yn nodi 'It is worth noting that in qualitative research conducted among high need families, parents reported that the programme had helped them to become more confident as a parent, manage their child's behaviour and engage more with their educational development.'
[7] Ibid t.7
[8] Ibid, t.9

- Dywed yr adroddiad fod yna ychydig iawn o ddata sydd yn dangos tystiolaeth bendant bod teuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg (cyn dechrau y rhaglen) wedi dechrau o linell sylfaen is ar gyfer y canlyniadau a fesurir yn y gwerthusiad. Mae'r data sydd ar gael, er enghraifft, data cyrhaeddiad addysgol, yn awgrymu fod yr **esboniad hwn yn bosib.**

## Pam mae canlyniadau Dechrau'n Deg yn ymddangos yn anodd i'w mesur?

Mae'r Gwerthusiad Cenedlaethol yn datgan ei fod yn bosibl fod teuluoedd Dechrau'n Deg wedi **dechrau o linell sylfaen is** ac felly fod **meithrin cydraddoldeb** ag ardaloedd cymharu llai difreintiedig **yn adlewyrchu'r hyn y gobeithiwyd y byddai Dechrau'n Deg yn ei gyflawni.**

Mae **Dechrau'n Deg: Adroddiad synthesis** (Ionawr 2014) Llywodraeth Cymru'n nodi:

> **Ni fyddwn yn gwybod beth yw canlyniadau ac effaith tymor hwy Dechrau'n Deg am nifer o flynyddoedd.** Er enghraifft, dim ond chwech i saith oed yw oedran y plant a aned yn y flwyddyn pan lansiwyd Dechrau'n Deg (2006/07). Felly, ni ellir sefydlu'r effaith yn y tymor hwy ar eu canlyniadau addysgol, cymdeithasol ac iechyd. [Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil.]

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at ddata o ystadegau cryno Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012/13. Mae tystiolaeth o'r canlynol:

- Yn 2012, yn ddwy oed, roedd cyfran y grŵp Dechrau'n Deg a oedd yn cyrraedd neu'n rhagori ar eu cerrig milltir yn eu hoedran yn 70 y cant neu fwy mewn rhai ardaloedd, ond mewn ardaloedd eraill roedd llai na 40 y cant yn gweithredu ar y lefel hon.
- Yn dair oed, roedd y canlyniadau ar gyfer plant tair oed yn well (yn llawer gwell weithiau) nag ar gyfer plant dwy oed mewn 14 o awdurdodau, yn enwedig mewn rhai o'r ardaloedd, gyda'r canlyniadau gwaelaf ar gyfer y plant iau.

Casgliadau'r adroddiad:

> Er bod y rhain yn ddau grŵp ar wahân ac nad yw'r data yn hydredol, **gall hyn awgrymu bod ymyriadau fel gofal plant Dechrau'n Deg am ddim o ansawdd uchel yn ddwy i dair oed yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau datblygiad plant mewn rhai awdurdodau.**

Mewn datganiad i'r wasg: ***Llywodraeth Cymru'n ymdrechu'n barhaus i gynorthwyo plant tlotaf Cymru***, 5 Rhagfyr, 2013, nododd y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi, Vaughan Gething AC fod:

> […] gwerthusiad annibynnol a thryloyw fel hwn yn gwbl allweddol er mwyn sicrhau'r canlyniadau mwyaf priodol ar gyfer teuluoedd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig a hefyd er mwyn ein galluogi i wneud popeth o fewn ein gallu i wella eu bywydau. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni fonitro a gwerthuso'n barhaus a hefyd newid yr hyn a wnawn os bydd angen.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **Sian Thomas**, y Gwasanaeth Ymchwil (**sian.thomas@cymru.gov.uk**)

**Darllenwch hefyd: Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru: Gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'n Deg**

Gallwch weld **ein holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/cy/bus-home/research.htm**

Gallwch hefyd ein dilyn ni ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid anfon y rhain i: Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA neu eu hanfon mewn neges e-bost i **Research.Service@cymru.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn ag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.